

DOLEN Y TAB 69

20–21 Awst 2021

10.30 Bore Sul 22 Awst

Oedfa 'fyw' dan arweiniad Arwel Ellis Owen yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth.

Derbyniwyd y neges isod oddi wrth Rhodri-Gwynn Jones, Ysgrifennydd Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth:

'Byddai o gymorth i mi wybod ymlaen llaw pwy sy'n bwriadu bod yn bresennol yn yr oedfa. Rhowch wybod ar: rhodrigj@btinternet.com os gwelwch yn dda. Bydd angen gorchudd wyneb arnoch, a bydd cyfle i ganu – ond dewch â'ch copi personol o Caneuon Ffydd gyda chi.'

DS Hefyd caiff yr oedfa ei recordio a bydd ar gael ar ein sianel deledu YouTube (Bethlehem Gwaelod y Garth) yn ddiweddarach yn y dydd.

Yr Oedfa Nesaf

Awst

29 Oedfa Rithiol yng ngofal Rhiannon Humphreys.

Hefyd ddydd Sul 22 Awst

12:00 Oedfa Radio Cymru

Adran Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru.
Y gwasanaeth dan ofal Sarah Morris, Carys Davies ac Eirian Roberts.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru Cyflwynir oedfaon rithiol gwahanol bob wythnos yn ystod mis Awst i roi hoe i gyfranwyr y bwletin.

BRYDIA WELLA!

Treuliodd Iwan West rai dyddiau yn yr ysbyty'n ddiweddar, ond mae'n dda clywed ei fod yn gwella a'i fod bellach yn derbyn pob gofal gan ei fodryb ar 'wyliau bach' ym Meisgyn.

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn bob cydymdeimlad gyda Heulwen Rees, Efail Isaf, ar golli ei mam yn ddiweddar.



Blas y Pridd

Bydd cyfle rhwng 10 a 12 fore
lau 26 Awst i dderbyn peth o



gynnyrch yr ardd gymunedol. Y llysiâu sydd ar gael ar hyn o bryd yw tatws, ffa dringo a betys. Bydd modd i chi gynnig cyfraniad bach tuag at y gronfa i brynu rhagor o hadau ar gyfer cnwd y flwyddyn nesaf.

GALW AM DDILLAD

Mae John Llew yn awyddus i helpu elusen Carmel, Blaenllechau, yn eu hymgyrch i gasglu dillad – yn cynnwys dillad ysgol – i blant hyd at 13 oed. Mae Carmel yn weithgar iawn yn eu hymdrechion i ddiwallu anghenion yn y gymuned, ac yn gwerthfawrogi ein help. Bydd y capel ar agor eto fore lau 26 Awst i dderbyn cyfraniadau, fel bod modd eu danfon ymlaen mewn da bryd cyn i'r ysgolion ailagor.

DIOLCH YN FAWR

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

EDRYCH YMLAEN, NID EDRYCH YN ÔL

Bydd oedfaon yn dychwelyd i'r capel ar 5 Medi. Mae tipyn o siarad wedi bod dros y cyfnod clo am ein hoedfaon digidol, a phobl yn holi a ddylem ddychwelyd i'r un patrwm a fu dros y ddegawd ddiwethaf pan fydd popeth yn ailagor. Daeth yn amser i ni ailfeddwl ein fformat, gyda'r posibilïadau digidol yn gallu parhau i gael eu defnyddio wrth flaen-gynllunio ein gwasanaethau.

I'r perwyl hwn, y gobaith yw datblygu'r bore Sul mewn ffordd ychydig yn wahanol, gan ein galluogi i fod yn fforwm sy'n gallu apelio'n ehangach ar draws yr ystod oedran, a chodi diddordeb a brwdfrydedd fydd yn gymorth i ni allu parhau i gynnal i'r oesoedd a ddêl y gwaith cwbl greiddiol sy'n cael ei gyflawni gan ein cynulleidfa trwy'r criw sy'n cydlynu'r gefnogaeth i elusennau lleol.

Felly, pan ddown yn ôl at ein gilydd ym mis Medi, disgwylwch oedfaon fydd o bosib yn fyrrach, yn cynnig cyfle i bobl ddod i nabod ei gilydd . . . ac yn esblygu gyda'r talentau sydd gyda ni o fewn ein cynulleidfa. Bydd mwy o angen nag erioed am gymunedau cynhwysol, gofalggar a chefnogol, a dyna'n nod ni fel eglwys. Gobeithiwn y gall ein boreau Sul fod yn fodd i ddatblygu'r eglwys ymhellach. Yn edrych ymlaen at eich gweld.

Geraint Rees

‘Does neb yn gwrando ar bregeth . . .’

Wrth sganio'n gyflym drwy'r rhifyn cyfredol o *Golwg* bore ddoe, tynnwyd fy sylw at y geiriau uchod. Maent i'w gweld mewn cyfweiliad gyda Lleucu Roberts wrth iddi ymhelaethu ar y gefnlen gymdeithasol a gwleidyddol negyddol ddiweddar a'i hysgogodd i lunio'r nofel *Hannah-Jane* y dyfarnwyd Gwobr Goffa Daniel Owen iddi yn yr Eisteddfod AmGen eleni. Wrth gwrs, sôn y mae hi yma am grefft y nofelydd o gyflwyno neges mewn ffordd gynnil a difyr yn hytrach na'i gwrthio'n uniongyrchol i lawr corn gwddw'r darlennydd. Serch hynny, mae'n cyfaddef ei bod ar brydiau wedi cael ei themtio'n fawr 'i bregethu, ac mae'n rhaid ffrwyno hynny'. Gan na chefais gyfle eto i ddarllen *Hannah-Jane* ni allaf farnu pa mor llwyddiannus fu cynildeb y traethu, ond mae sylwadau'r tri beirniad yn gytûn iddi lwyddo'n ddigamsyniol i wneud hynny'n effeithiol.

Wrth gwrs, nid Lleucu yw'r nofelydd cyntaf na'r olaf chwaith i gyflwyno neges foesol trwy gyfrwng plot a chymeriadau bwriadol. Ond nid llenorion yw'r unig rai i drosglwyddo negeseuon neu wersi ar ffurf stori – dyma'n aml yw rhan o gyfrinach yr areithiwr mwyaf effeithiol a'r athro mwyaf ysbrydoledig.

Ond gall y gosodiad yn y pennawd ar frig y dudalen hon fod yr un mor berthnasol i'r pregethau traddodiadol a draddodwyd o bulpudau Cymru dros y can mlynedd a mwy diwethaf. Does ond rhaid meddwl am yr ystadegau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd am y gostyngiad mewn cynulleidfaoedd dros y cyfnod hwn, a'r adroddiadau wythnosol bron ar y cyfryngau am gau capel mewn rhyw ran o'r wlad, i gydnabod mai tenau iawn ar y gorau yw'r cynulleidfaoedd – a'r rhan fwyaf o'r aelodau hynny wedi cyrraedd oed ymddeol.

Nid dyma'r lle i olrhain y ffactorau niferus dros ddirywiad Cristnogaeth cyfundrefnol yng Nghymru, ond does dim amheuaeth bod ffurf yr oedfaon – ac yn arbennig felly ieithwedd a hyd pregethau – wedi chwarae rhan nid ansylweddol yn y dirywiad. Ar y naill law mae'r lle canolog a roddwyd i'r bregeth yn ein traddodiad anghydfurfiol yn un digon dealladwy, ond ar y llaw arall fe ddylai'r ymwybyddiaeth o gynnwys yr efengylau fod wedi dangos cymaint mwy effeithiol oedd cyflwyno dysgeidiaeth yr Iesu ar ffurf storïau – sef y damhegion. Yn y damhegion fe lwyddwyd i esbonio cysyniadau haniaethol am werthoedd creiddiol Cristnogaeth trwy eu darlunio ar ffurf stori, a thrwy hynny fe'u gwnaed yn fwy cofiadwy a pherthnasol o ran sut y dylem ymddwyn yn ein bywydau bob dydd. Un ffordd o fesur llwyddiant y damhegion yw holi pa rai o wersi'r Iesu

y clywsom amdanynt yn yr ysgol Sul nad ydym wedi eu anghofio. Mentraf ddweud y byddai damhegion megis 'Y Samariad Trugarog', 'Y Mab Afradlon' a'r 'Ddafad Golledig' yn agos iawn i'r brig gan y mwyafrif ohonom, a byddwn hefyd yn deall ergyd yr hanesion. Yr eglurhad a geir dros ddewis adrodd ar ffurf damhegion gan Iesu yn yr efengylau yw ' . . . er iddynt edrych nid ydynt yn gweld, ac er iddynt wrando nid ydynt yn clywed nac yn deall' [Mathew 13.13]. Tybed ai dyma'r her wrth i ni baratou at ddychwelyd i gydaddoli yn y Tabernacl unwaith yn rhagor?

Bardd sydd wedi crisialu arwyddocâd 'stori' fel cyfrwng i gyfleu gwirioneddau mawr yn well na neb yw R. Williams Parry pan luniodd y cwpled:

*'Nes na'r hanesydd at y gwir di-goll
Ydyw'r dramodydd, sydd yn gelwydd oll.'*

Eleni, bydd y gyfres deledu *Dechrau Canu Dechrau Canmol* yn 60 mlwydd oed. I ddathlu'r achlysur pwysig hwn yn ei hanes, trefnwyd rhifyn arbennig yn yr hydref o Neuadd Dewi Sant, Caerdydd gyda Huw Edwards yn cyflwyno a Cherddorfa Gymreig y BBC yn cyfeilio.



I gyd-fynd â'r digwyddiad hwn, bydd cyfle i bawb chwarae eu rhan trwy ddewis eu hoff emyn. Mae panel o arbenigwyr eisoes wedi cwrdd i lunio rhestr hir o ugain emyn poblogaidd, ac fe'ch gwahoddir i ddewis emyn o blith y rhai sydd wedi eu cynnwys yn y rhestr.

I hwyluso'r dasg cyn bwrw eich pleidlais, mae modd troi at dudalen Dechrau Canu Dechrau Canmol ar wefan S4C [Dechrau Canu Dechrau Canmol | S4C](#) i wyllo darllediad o bob un o'r 20 emyn. Ar y dudalen honno mae ffurflen lle medrwch anfon eich dewis yn ddigidol. Bydd modd hefyd i chi fwrw eich pleidlais drwy ffonio cwmni Rondo ar 02920 223456.

Dyddiad cau: 30 Awst 2021.

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205.